



Boicot ar weithgareddau asesu ac marcio

Cyngor ar gyfer Swyddogion Undebau Myfyrwyr

Beth gaiff ei gynnwys yn y boicot hwn?

Dan foicot o'r fath, bydd aelodau o'r UCU mewn prifysgolion yn rhoi'r gorau i holl waith gosod a marcio, gwaith cwrs ac aseiniadau, sydd felly'n cynnwys yr holl waith a gyflwynir gan fyfyrwyr i'w asesu. Bydd aelodau o Undeb y Prifysgolion a'r Colegau (UCU) yn dechrau boicot cynhwys-fawr o'r 6ed Tachwedd hyd nes y canfyddir datrysiaid i'r anghydfod dros bensiynau.

Byddant yn parhau i addysgu, cymryd seminarau a darlithoedd. Ond ni fyddant yn gosod na marcio traethodau, prosiectau na thraethodau estynedig, ac ni fyddant yn asesu na'n gosod graddau ar gyfer unrhyw waith ymarferol.

Mae'r UCU yn ceisio osgoi unrhyw weithredu sy'n mynd i niweidio buddiannau eu myfyrwyr, ond maent wedi eu gorfodi i wneud hyn gan y bygythiad sylweddol a pharhaol i'w pensiynau.

Beth sydd wrth wraidd yr anghydfod?

Bydd y newidiadau arfaethedig yn:

- costio miloedd o bunnoedd y flwyddyn i aelodau presennol ac yn y dyfodol mewn buddion coll
- cau'r adran gyflog terfynol o'r CPP a symud pawb i'r cynllun cyfartaledd gyrfa


- cyflwyno cap o £50,000 ar enillion na fydd buddion yn berthnasol tu hwnt iddo.
- Bydd yr incwm o'r 'pot cyfraniadau diffiniedig' yn dibynnu ar berfformiad buddsoddiadau ac felly ni ellir ei sicrhau.
- Ar sail debyg am debyg, bydd gan aelodau CPP fuddion pensiwn llawer llai na chydweithwyr sy'n aelodau o'r CPA.
- Mae hyn yn debygol o arwain at broblemau recriwtio a dargadwedd, gyda staff yn dewis gweithio i'r cyflogwyr sy'n cynnig y pensiynau gorau.

UCU ac Undebau Myfyrwyr

Mae UCU yn gosod gwerth uchel a eu perthynas ag UCM a gydag Undebau Myfyrwyr lleol. Rydym wedi ymgyrchu gyda'n gilydd ar nifer o faterion yn genedlaethol ac yn lleol.

Ar adeg pryd mae arweinwyr prifysgolion yn mynd ati i hyrwyddo rheolaeth fain a gwneud sefydliadau'r fwy masnachol a llai democrataidd, mae gan undebau staff ac Undebau Myfyrwyr rôl allweddol i'w chwarae mewn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau nad yw prifysgolion yn colli golwg ar bwy sy'n gwneud iddynt redeg mewn gwirionedd ac ar gyfer pwy y cânt eu rhedeg.

Mae ein haelodau nawr angen eich cefnogaeth.



Sut all Undebau Myfyrwyr helpu?

Rydym yn sylweddoli y bydd gweithredu o'r fath yn creu pryder sylweddol ymysg rhai myfyrwyr. Nid ydym eisiau gweithredu, ond rydym yn rhedeg allan o amser ac opsiynau. Gofynnwyd i'n canghennau gysylltu â chi i drafod gweithio ar y cyd.

Dyma rai awgrymiadau ar gyfer fyrdd y gallwch helpu

1 Dosbarthu nodyn briffio UCU ar gyfer myfyrwyr ymhlith eich aelodau. Mae hwn i'w weld yn:

defenduss.web.ucu.org.uk/resources

2 Cwrdd â'ch cangen leol o'r UCU a cheisio datblygu rhaglen o weithgareddau ymgyrchu ar y cyd sy'n codi proffil y boicot a'r materion sydd wrth wraidd yr anghydfod ymhlith eich aelodau.

3 Ysgrifennu at eich is-ganghellor neu brifathro ar ran Undeb y Myfyrwyr yn galw arnynt i ddatgan yn gyhoeddus y byddant yn 'sgrifennu at gorff cyd-drafod cenedlaethol y cyflogwyr, UUK* yn mynnu eu bod yn datrys y sefyllfa anodd hon o ran yr anghydfod dros bensynau.

4 Codi'r mater yng nghyfarfodydd corff llywodraethu eich prifysgol.

5 Gofyn i'ch aelodau sy'n bryderus ynglyn â'u cyrsiau a chynnydd i ysgrifennu at eu his-ganghellor neu brifathro yn galw arnynt i roi terfyn ar yr anghydfod. Gallant ddefnyddio fersiwn neu ffurf o'r geiriau canlynol:

Annwyl _____

Ysgrifennaf atoch fel myfyriwr ym Mhrifysgol _____ i alw arnoch i ddefnyddio eich dylanwad i roi terfyn ar yr anghydfod gydag Undeb y Prifysgolion ar Colegau. A fydddech cystal â gwneud datganiad cyhoeddus y byddwch yn galw ar UUK i ddatrys yr anghydfod hwn cyn y caiff fy astudiaethau i a amiloedd o fyfyrwyr eraill eu amharu ymhellach.

Yn gywir _____

6 Os ydych yn cael unrhyw anawsterau wrth geisio cysylltu â neu weithio gyda'ch cangen leol o'r UCU, mae croeso i chi gysylltu â Justine ar

jstephens@ucu.org.uk

*UUK – Universities UK yw corff cynrychioli'r cyflogwyr (is-gangellorion a phrifathrawon)

